

PWYLLGOR PENODIADAU

Cofnodion y cyfarfod rhithiol a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd 2021

YN BRESENNOL:	Cynghorydd Ieuan Williams (Cadeirydd) Cynghorydd Bob Parry OBE FRAgS (Is-Gadeirydd) Y Cynghorwyr R Dew, Glyn Haynes, T LI Hughes MBE, K P Hughes, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones a R Meirion Jones
WRTH LAW:	Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro, Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid, Rheolwr Adnoddau Dynol (CW), Swyddog Pwyllgor (MEH).
YMDDIHEURIADAU:	Dim
HEFYD YN BRESENNOL	Dim

1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Dim.

2 COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Tachwedd fel cofnod cywir.

3 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol:-

“O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.”

4 APWYNTIO STAFF

Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

Cafodd 3 ymgeisydd ar y rhestr fer eu cyflwyno ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor Penodiadau fel darpar ymgeiswyr ar gyfer y rôl Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd. Bu 2 o'r ymgeiswyr dynnu eu cais yn ôl cyn y cyfweiliad.

Rhoddodd yr ymgeisydd arall gyflwyniad, atebodd gwestiynau ar y cyflwyniad ac yna atebodd gyfres o gwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor. Rhoddwyd adborth gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro, y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid a'r Rheolwr Adnoddau Dynol ar y broses asesu a oedd yn cynnwys prawf seicometrig a chyfweiliad proffesiynol a gynhaliwyd gan y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro a'r Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid.

Yn dilyn y cyfweiliad ffurfiol, bu'r Pwyllgor Penodiadau **BENDERFYNU**:-

- **peidio â phenodi'r ymgeisydd i'r rôl Pennaeth Gwasanaethau Democraidd;**
- **ail hysbysebu'r swydd yn ystod mis Rhagfyr gyda dyddiad cau ar gyfer ceisiadau ym mis Ionawr 2022.**
- **bod trefniadau interim yn cael eu rhoi yn eu lle yn dilyn trafodaeth a chytundeb rhwng y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro a'r Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid.**
- **Swyddogion i adolygu proses recriwtio'r Pwyllgor Penodiadau a darparu argymhellion.**

**Y CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS
CADEIRYDD**